



Disgrifiad Swydd Athletau Cymru

Teitl Swydd:	Pennaeth Perfformiad
Yn atebol i:	Prif Swyddog Gweithredol
Yn gyfrifol am:	Adrannau Perfformiad a Hyfforddi
Rhyngwyneb allweddol gyda:	British Athletics, cyrff llywodraethu athletau gwledydd Prydain, Chwaraeon Anabledd Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru
Lleoliad:	Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd/Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol
Pwrpas cyffredinol y rôl:	Rhoi cyfeiriad strategol ac arweiniad i Berfformiad a Hyfforddi yng Nghymru
Cyfrifoldebau cyllidebol:	Perfformiad a hyfforddi
Cyfrifoldebau allweddol:	

- Rhoi arweiniad effeithiol i'r tîm perfformiad (pobl, cyllid, prosesau) er mwyn cefnogi anghenion strategol y rhaglenni priodol.
- Sicrhau bod cynllun gweithredol blynyddol ar waith ar gyfer yr adran, sy'n gyson ag amcanion strategol cyffredinol Athletau Cymru
- Rhoi arweiniad i'r adrannau Perfformiad a Hyfforddi ac i'r gymuned hyfforddi athletau yng Nghymru
- Bod y prif ryngwyneb i'n rhanddeiliaid allweddol (Chwaraeon Cymru, British Athletics, Chwaraeon Anabledd Cymru ac ati)
- Bod yn gyfrifol am y gyllideb perfformiad a hyfforddi, gan sicrhau bod y cyllidebau'n cyd-fynd â'r amcanion strategol
- Gweithio'n agos gyda'r uwch reolwyr perthnasol i sicrhau bod y rhaglenni'n cyd-fynd â datblygiad a chystadlaethau
- Bod yn gyfrifol am blannu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhaglen a chynnal dyletswydd gofal tuag at athletwyr a hyfforddwyr



- Cynnal gwerthoedd sefydliadol Athletau Cymru a chyfrannu at waith a lles y teulu athletau yng Nghymru

Athletwyr

- Arwain y cyfarfod blynyddol lle adolygir yr athletwyr, gan sicrhau bod yr holl athletwyr a gaiff eu dewis yn cyd-fynd ag amcanion strategol cyffredinol Athletau Cymru
- Bod yn gyfrifol am ddatblygiad athletwyr a hyfforddwyr a gynorthwyr, gan weithio gyda British Athletics i sicrhau'r cymorth gorau posib i athletwyr a hyfforddwyr Cymru o fewn y rhaglen safon byd-eang (WCP).
- Bod yn gyfrifol am gyfraniad Athletau Cymru i Dîm Prydain Fawr ac at y targed perthnasol o ran medalau yn y Pencampwriaethau Mawr, gan gynnwys targed Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2026
- Sicrhau bod yr holl drafodaethau ynglŷn â pherfformiad athletwyr a hyfforddwyr yn cael eu harwain gan ddealltwriaeth, a sicrhau bod system dracio gadarn ar waith ac yn cael ei mabwysiadu ar draws y rhaglen berfformiad
- Rhoi arweiniad ar y calendr cystadlaethau rhyngwladol cyffredinol, gan sicrhau cysondeb rhaglen gystadlu rhyngwladol bob grŵp digwyddiad.
- Arwain ar ddatblygiad a gweithrediad meini prawf rhyngwladol ar gyfer dethol athletwyr, sicrhau bod hyn yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol i'r holl randdeiliaid ac i'r athletwyr allweddol
- Gweithio gyda'r Ffisiotherapydd Arweiniol i sicrhau bod systemau i gefnogi athletwyr yn cael eu rhedeg yn gydlynol, a bod athletwyr safon medalau yn cael eu blaenoriaethu yn unol â hynny.

Hyfforddwyr

- Gweithio gyda'r Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr ar ddatblygu adnodd hyfforddi o'r radd flaenaf i ysgogi'r rhaglenni addysgu a datblygu hyfforddwyr yng Nghymru.

Perthynas Rhanddeiliaid

- Rhoi adroddiad i strwythurau llywodraethu priodol Athletau Cymru am gyflawniad y cynllun strategol, gan gynnwys is-grwpiau perfformiad ac ariannol y Bwrdd.
- Rheoli systemau cofnodi ar gyfer Chwaraeon Cymru – rhoi diweddariadau chwarterol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr adrannau

Welsh Athletics Ltd

Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870

Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

- Bod yn gyfrifol am reoli'r berthynas â Phrifysgolion sy'n bartneriaid er mwyn datblygu adnoddau sylfaenol o'r radd flaenaf i gefnogi athletwyr a hyfforddwyr.
- Bod yn brif bwynt cyswllt gyda Gemau'r Gymanwlad Cymru, gan arwain y gwaith o lunio polisi enwebu ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2026
- Gweithio'n agos ag UK Athletics a Ffederasiynau Athletau Gwledydd Prydain, gan sicrhau cysondeb rhwng y rhaglenni a helpu i ddatblygu llwybr talent ac adnoddau di-dor



Manyleb Person

	Hanfodol	Manteisiol
Profiad helaeth o reoli o fewn chwaraeon perfformiad uchel/Hyfforddi Elitaidd	✓	
Unigolyn sy'n meddwl strategol ac sy'n ymdrechu i wella'n barhaus	✓	
Profiad o reoli cyllideb, gan sicrhau bod yr holl wariant yn gyson â'r blaenoriaethau strategol a bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni bob amser (H)	✓	
Profiad fel hyfforddwr neu reolwr/Arweinydd Tîm i dimau rhyngwladol mewn digwyddiadau mawr fel y Gemau Ewropeaidd, Gemau'r Byd a'r Gemau Olympaidd (H)	✓	
Dealltwriaeth gynhwysfawr o'r amgylchedd perfformiad uchel, gan gynnwys hyfforddi, gwyddor chwaraeon a meddygaeth, cystadlaethau rhyngwladol a llwybrau datblygu (H)	✓	
Hanes wedi ei brofi o weithredu rhaglen ddatblygu o safon fyd-eang o fewn y maes chwaraeon perfformio (H)	✓	
Sgiliau arwain tîm a rheoli rhagorol gyda hanes wedi'i brofi o sefydlu diwylliant o gydweithio, gwaith tîm, arloesi a chefnogi.	✓	
Profiad o weithio gydag athletwyr, hyfforddwyr a staff technegol elitaidd, gan gynorthwyo i gynllunio, gweithredu a gwerthuso eu rhaglenni perfformiad (H)	✓	
Profiad o ddatblygu talent sefydliadol – creu amgylchedd dysgu sy'n sicrhau bod cydweithwyr yn cyrraedd eu llawn botensial er mwyn i'r sefydliad cyfan allu ateb heriau'r dyfodol	✓	
Arweinydd deinamig a brwdfrydig gyda'r weledigaeth a'r gallu i ddatblygu a gweithredu nodau strategol	✓	
Gwybodaeth am brosesau rheoli prosiect		✓
Hunan-gymhellol a gallu gweithio ar eich menter eich hun	✓	
Gweithio'n dda mewn tîm ac yn barod i arwain	✓	
Gallu gweithio ar fwy nag un dasg ar y tro a gweithio'n hyblyg ar draws gwahanol gystadlaethau a phrosiectau	✓	
Gallu ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill	✓	

Welsh Athletics Ltd
Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870
Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

Profiad o bob un o ddisgyblaethau'r maes athletau	✓	
Gallu teithio ledled Cymru (a Phrydain yn ôl yr angen)	✓	
Sgiliau TG rhagorol ar gyfer ystod o feddalwedd	✓	
Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno tra datblygedig		✓
Sgiliau trefnu a sgiliau gweinyddol rhagorol	✓	
Gallu ymgysylltu â rhanddeiliaid yn fedrus ac ysgogi newid. Bod â gweledigaeth ar gyfer rhagoriaeth a brwdfrydedd i'w chyflawni. Gosod a chyflawni nodau ar gyfer perfformiad uchel	✓	
Gallu gweithio dan bwysau ac o fewn amser penodol	✓	
Chwilio'n barhaus am gyfleoedd o ddefnyddio dulliau gwahanol ac arloesol o fynd i'r afael â heriau sefydliadol	✓	
Defnyddio dulliau cyfathrebu a sgiliau rhyngpersonol priodol i feithrin a dylanwadu ar gysylltiadau hynod gydweithredol ac effeithiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid	✓	

Nid yw'r proffil rôl hwn yn un cyflawn. Fe'i bwriedir fel amlinelliad o'r meysydd gwaith ac fe'i trafodir gyda chi a'i addasu dros amser yng ngoleuni anghenion newidiol y cwmni.

Welsh Athletics Ltd
Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870
Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

BUDDION CYFLOGAETH

TEITL SWYDD	Pennaeth Perfformiad
CYFLOG	Cystadleuol, yn dibynnu ar brofiad
CYFNOD	Cytundeb parhaol
GWYLIAU BLYNYDDOL Â THÂL	25 diwrnod yn ogystal ag 8 Gŵyl Banc Statudol
ORIAU	Llawr Amser - 37 awr yr wythnos yn ôl trefn "Pob Awr". Mae angen agwedd hyblyg tuag at oriau gwaith gan fod posibilrwydd y bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau
BUDDION ERAILL	Cynllun Pensiwn gyda chyfraniadau gan y cwmni Cyfleoedd hyfforddi a datblygu 10% o amser lles personol
CYFNOD RHYBUDD	3 mis